

Y Swydd

Y Swydd Cydlynnydd Prosiect Cyd-gynhyrchu

Prif Ddiben

Gweithio fel aelod o'r tîm i gyflawni prosiect cyd-gynhyrchu 'Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio' y Loteri Genedlaethol gan ymgysylltu a grymuso pobl sy'n gwirfoddoli eu hamser a'u talentau o fewn dull cyd-gynhyrchu o weithio.

Mae Plant y Cymoedd wedi ymrwymo i gyfranogiad pobl leol wrth ddarparu a rheoli gweithgareddau cymunedol. Disgwylir i'r gweithiwr weithio yn unol ag amcanion elusennol y mudiad.

Man Gweithio

Y Ffatri/safleoedd Plant y Cymoedd

Yn Atebol i

Cyfarwyddwr Rhaglenni

Prif Dasgau

1. Cyflwyno Prosiect

- Datblygu cynllun gweithredu blynyddol y Prosiect gyda chydweithwyr.
- Cefnogi wrth drefnu ymgynghoriadau cymunedol i gasglu gwybodaeth i arwain rhaglenni'r prosiect gan sicrhau eu bod wedi'u teilwra yn unol â gofynion y gymuned.
- Cefnogi wrth gysylltu â Hybiau Cymunedol a Theuluol Plant y Cymoedd i sicrhau bod y rhaglenni wedi'u teilwra yn unol â gofynion y gymuned.
- Trefnu gydag asiantaethau eraill pan fydd eu hangen ar gyfer cyflwyno sesiynau.

2. Cefnogi Teuluoedd

- Sicrhau bod croeso i bawb sy'n cymryd rhan yn y Prosiect
- Sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud i sicrhau bod y sesiynau'n rhedeg yn llyfn.
- Sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd gwirfoddoli o safon.

3. Gwybodaeth a Chofnodion

- Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw ar gyfer y Prosiect.
- Sicrhau bod gwybodaeth feintiol ac ansoddol briodol yn cael ei chasglu.
- Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw o oriau gwirfoddolwyr a bod y credydau amser a roddir yn briodol.
- Cefnogi'r prosiect gyda dyletswyddau gweinyddol.
- Rheoli unrhyw TG (meddalwedd a chaledwedd) sy'n ofynnol.

4. Cyfrifoldebau Eraill

Disgwylir i'r gweithiwr gyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill a bennir gan y Cyfarwyddwr Rhaglenni a'r Prif Swyddog Gweithredol.

CYDLYNYDD PROSIECT CYD-GYNHYRCHU

Bydd y person yr ydym yn edrych amdano yn gallu arddangos pob un neu rai o'r canlynol:

- ☐ 2 flynedd o brofiad mewn gweinyddiaeth a busnes yn y gymuned.
- ☐ Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn ysgrifenedig ac ar lafar; parodrwydd i wrando ac i ddefnyddio iaith briodol wrth gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth.
- ☐ Profiad o ddefnyddio cyfryngau digidol a chymdeithasol
- ☐ Profiad o weithio tuag at dargedau
- ☐ Y gallu i weithio fel rhan o dîm gan hyrwyddo ysbryd tîm gan greu diwylliant o gyfnewid agored a rhydd.
- ☐ Meddu ar ymagwedd agored a chadarnhaol tuag at newid a hyblygrwydd.
- ☐ Dealltwriaeth o TG.
- ☐ Dealltwriaeth lawn o werthoedd cydraddoldeb cyfle, ac ymrwymiad iddynt.
- ☐ Agwedd hyblyg a pharodrwydd i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- ☐ Dealltwriaeth o sut mae tlodi ac anfantais gymdeithasol yn effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd
- ☐ Cyswllt â'n gwaith ac empathi gyda'n grwpiau difreintiedig.
- ☐ Dealltwriaeth o'r Sector Gwirfoddol.

PLANT Y CYMOEDD

Wedi'i sefydlu ym 1977 mae Plant y Cymoedd Kids yn fudiad datblygu cymunedol gyda'r ymrwymiad i weithio gyda'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd mwyaf heriol, gan gredu bod gan bawb botensial a'n gwaith ni yw rhyddhau'r potensial hwnnw.

Y Wybodaeth

Ffurflen Gais neu	Dylid dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi at Lynfa@valleyskids.org Lynfa Hull, Swyddog Gweinyddol, Plant y Cymoedd, 1 Cross Street, Penygraig, Tonypany, CF40 1LD.
Dyddiad Cau	Y dyddiad cau i dderbyn ffurflenni cais wedi'u llenwi yw 11.59pm 6 Rhagfyr 2021 Gofynnir ichi gynnwys rhif ffôn lle gellir cysylltu â chi (naill ai yn ystod y dydd neu gyda'r nos fel sy'n well gennych).
Cyfweliadau	Cynhelir cyfweliadau mewn person ar 16 Rhagfyr 2021
Gwybodaeth Bellach	Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch neu os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y swydd cyn gwneud cais, ffoniwch Clare Llewellyn ar 01443 420870.

AMLINELLIAD O'R TELERAU AC AMODAU

Cyflog	Y cyflog yw £27,041 - £29,577 y flwyddyn
Oriau	1.5 cyferth ag amser llawn yn seiliedig ar wythnos waith o 37 awr. Mae'r oriau hyn yn hyblyg ac yn agored i rannu swydd. I'w gweithio'n hyblyg dros yr wythnos gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau.
Hyd:	Contract tan 31 Awst 2022.
Gwyliau	25 diwrnod gwaith y flwyddyn ynghyd â gwyliau statudol.
Cyfnod Prawf	Mae cyfnod prawf o chwe mis a'r cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod hwn yw un mis.
Cyfnod Rhybudd	Ar ôl dwy flynedd o gyflogaeth, rhaid rhoi deufis o rybudd.
Lleoliad	Mae'r swydd yn gweithredu o'r Ffatri, Stryd Jenkin Porth ac ar draws safleoedd Plant y Cymoedd
Buddion eraill	Mae Plant y Cymoedd yn lle cyffrous i weithio. Mae'n fudiad bach sy'n ymroddedig i'r ardal a phobl De Cymru. Mae'r swydd yn cynnig cyfle i weithio gyda thîm ymroddedig, cefnogol sydd eisiau gwneud y gwaith maen nhw'n ei wneud. Mae'r mudiad hefyd yn cynnig hyblygrwydd sylweddol o ran sut mae staff yn gweithio. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau penodol, ffoniwch 01443 420870 a gofynnwch i siarad â Clare Llewellyn.

Ynglŷn â Phlant y Cymoedd

Y WELEDIGAETH

Bydd Plant y Cymoedd yn ddathliad o gyflawniadau pobl sydd, trwy roi cynnig ar wahanol weithgareddau a chael profiadau newydd, yn ehangu eu gorwelion ac yn cyflawni eu potensial.

Y GENHADAETH

Bydd Plant y Cymoedd:

- Yn galluogi pobl leol i ddatblygu eu doniau a gwireddu eu llawn botensial.
- Yn galluogi plant a phobl ifanc i dyfu a datblygu trwy chwarae, hamdden a gweithgareddau creadigol.
- Yn galluogi pobl o'r cymunedau lleol i ddatblygu eu sgiliau ac i ennill gwybodaeth.
- Yn galluogi pobl ifanc sy'n cael eu dieithrio o'r gymdeithas i ddatblygu eu hunan-barch a'u helpu i chwarae rhan adeiladol yn eu cymuned.
- Yn annog pobl leol i ddod o hyd i ddatrysiadau eu hunain ar gyfer heriau sy'n wynebu eu cymuned.
- Yn grymuso cymunedau lleol.

BLE MAE'R PROSIECT?

Mae Plant y Cymoedd yn gweithio'n bennaf ledled Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yng Nghymoedd De Cymru. Mae'r ardal yn dioddef lefelau uchel o amddifadedd gyda lefel uchel o ddiweithdra, nifer uchel o aelwydydd rhieni sengl, lefelau uchel iawn o salwch hir dymor gwanychol a nifer fawr o deuluoedd nad ydynt yn ennill cyflog. Mae'n cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, mae ymdeimlad cryf o gymuned a pherthyn yn nodweddiadol o'r cymoedd. Dyma'r lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl eisiau byw. Mae gan y mwyafrif wreiddiau hirsefydlog yn yr ardal ac ymrwymiad mawr iddo.

PLANT Y CYMOEDD 1977 - PRESENNOL

Mae Plant y Cymoedd yn elusen gofrestredig. Fe'i sefydlwyd ym 1977 fel Prosiect Cymunedol Penygraig ac mae wedi gweithio i ryddhau'r potensial mewn cymunedau i helpu i wrthweithio effeithiau amddifadedd cymdeithasol a galluogi pobl i dyfu fel unigolion ac i ddod o hyd i ddatrysiadau i broblemau yn eu cymuned. Mae'r Hybiau Cymunedol a Theuluol yn darparu sesiynau chwarae cyn-ysgol, y tu allan i'r ysgol, clybiau ieuenctid, grwpiau 16+, gweithdai drama, theatr ieuenctid, dawnsgreadigol i blant, theatr, cerddoriaeth a dawnsgreadigol. Yn ogystal â'r pedair Hyb Cymunedol a Theuluol mae Prosiect Celfyddydau Ieuenctid, Prosiect Teuluoedd y Dyfodol, Hyb i'r Celfyddydau a Diwylliant a Chanolfan Breswyl. Mae'r Awdurdod Lleol, Llywodraeth y Cynulliad, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ymddiriedolaethau, Busnesau ac Unigolion yn cefnogi gwaith y mudiad.

Enillodd Plant y Cymoedd Wobr Cymdeithas Adfywio Trefol Prydain ym mis Tachwedd 2007.

Yn 2018, fe ddathlom ein pen-blwydd yn 40 gydag amrywiaeth o ddiwyddiadau ar gyfer ein staff, gwirfoddolwyr a chymunedau.

2020 oedd ein blwyddyn anoddaf hyd yma ond wedi llwyddo codi arian roedd modd i ni ddarparu 2000+ o becynnau bwyd, gofal a chwarae hanfodol i deuluoedd